LEFEL 4

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

TACHWEDD 2019

Cynnwys

	Rhif tudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion y pwnc	3
Cynnwys y pwnc	3
Cynllun asesu	4
Canlyniadau	5
Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo	5
Gofynion rhesymegol	6
Gofynion gweithredol	7
Atodiad A	9

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddio** o dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol (Hydref 2018)*[1]*: Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio.*

[1] https://www.qualificationswales.org/english/publications/standard-conditions-of-recognition/

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Datblygwyd y rhain drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu'r fanyleb a deunyddiau asesu ar gyfer Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae'r cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda theuluoedd a phlant o dan 8 oed a gwasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0 - 19.

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i gael ei ddarparu gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith, addysg bellach ac addysg uwch, ar gyfer dysgwyr sy'n 18 oed neu'n hŷn.

Lle bo'n briodol, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Bydd y meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon yn dod i rym o fis Chwefror 2020 ac yn cael eu hadolygu yn 2022.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ar gyfer addysgu ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres yn cynnwys cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Bydd yr holl gymwysterau yn y gyfres yn cael eu cyfyngu i un ffurf yn unig ar gyfer pob cymhwyster am gyfnod o bum mlynedd. Ar gyfer y cymhwyster hwn, bydd y cyfnod yn dechrau ar 1 Medi 2020. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu gaiff ddyfarnu pob cymhwyster. Ar ôl proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng Ionawr 2017 ac Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi contractio gyda chonsortiwm o City & Guilds of London Institute a CBAC i ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres ar y cyd.

Bydd Cymwysterau Cymru ond yn cymeradwyo cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*. Wrth ddatblygu cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn mae'n rhaid i gyrff dyfarnu ystyried *Mynediad Teg drwy Ddylunio*. Rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynir

hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y contract consesiynau a ddyfarnwyd yn ystod y camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster.

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a ragnodir yn yr Amodau Cydnabod Safonol, bydd y gofynion yn y ddogfen hon yn cael blaenoriaeth.

Strwythur a chynllun y cymhwyster

1. Rhaid i fanyleb Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gynnig ardystiad cymwyster i gyda Chyfanswm Oriau Cymhwyso o 600 awr (60 credyd) i ddysgwyr a bydd angen ei ddiffinio yn nhermau Oriau Dysgu Dan Arweiniad.

2. Mae'r cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant yn cynnwys cynnwys gorfodol (Grŵp A) a chynnwys dewisol (Grŵp B), (gweler Atodiad A).

3. Rhaid grwpio'r cynnwys dewisol (Grŵp B) yn dri llwybr cymeradwy:

    3.1 Adnabod a chefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY);

    3.2 Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (ALlICh); a

    3.3 Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau magu plant.

4. Rhaid i'r teitl cymhwyster sy'n ymddangos ar dystysgrifau fod fel a ganlyn:

    Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

5. Rhaid i gynllun Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant sicrhau:

    5.1 bod nodau ac amcanion y pwnc yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiadau i alluogi'r dysgwyr i arddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth;

    5.2 ei fod yn caniatáu dilyniant o gymwysterau Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

6. Rhaid i fanyleb Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant nodi unrhyw reolau cyfuno sy'n berthnasol o fewn y cymhwyster.

Nodau ac amcanion y pwnc

7. Rhaid i Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant alluogi dysgwyr i ddatblygu ac arddangos eu gwybodaeth, eu dealtlwriaeth, eu hymddygiadau, eu sgiliau a'u hymarfer yng nghyd-destun eu llwybr dewisol. Yn benodol, dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn:

    7.1 datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y llwybr a ddewiswyd;

    7.2 datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, modelau a dulliau gweithredu sy'n berthnasol i'r llwybr a ddewiswyd;

    7.3 datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth ar sut i gynnal a gwella canlyniadau i blant o fewn y llwybr a ddewiswyd;

    7.4 datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol sydd â meddyliau chwilfrydig yng nghyd-destun y llwybr a ddewiswyd;

    7.5 defnyddio dull ymholgar a beirniadol i wahaniaethu rhwng ffeithiau a barn; i lunio dadleuon a llunio barn wybodus mewn maes arbenigol o fewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant;

    7.6 datblygu hunanymwybyddiaeth er mwyn gwella ymarfer yn y llwybr a ddewiswyd;

    7.7 defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol o fewn eu rôl.

Cynnwys y pwnc

8. Rhaid i gynnwys manyleb Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

9. Rhaid i gynnwys manyleb Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gynnwys y cynnwys gorfodol (Grŵp A) a bennir yn Atodiad A.

10. Rhaid i gynnwys manyleb Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gynnwys y llwybrau canlynol:

    10.1 Adnabod a chefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY);

10.2 Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (ALlICh); a

10.3 Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau magu plant.

11. Nodir y cynnwys ar gyfer pob llwybr yn Atodiad A (Grŵp B).

Cynllun asesu

12. Bydd Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant yn cael ei asesu drwy:

12.1 bortffolio o dystiolaeth;

12.2 prosiect; a

12.3 thrafodaeth broffesiynol.

13. Rhaid i bob asesiad (y manylir arnynt ym mharagraff 10) ymdrin â chyfran sylweddol o'r cynnwys. Ar gyfer pob llwybr, rhaid cwmpasu'r holl gynnwys gorfodol a ddisgrifir yng Ngrŵp A, a'r cynnwys ar gyfer y llwybr hwnnw a ddisgrifir yng Ngrŵp B, ar draws yr asesiadau. Wrth gyflwyno'r cymhwyster i'w gymeradwyo, bydd yn ofynnol i'r corff dyfarnu ddarparu rhesymeg sy'n esbonio ei ddull o benderfynu pa gynnwys sy'n dod o dan ba gydran asesu.

14. Rhaid i'r fanyleb nodi math a maint y dystiolaeth i'w chasglu at ddibenion asesu.

15. Rhaid i'r cymhwyster fod yr un mor heriol i bob dysgwr, ni waeth pa unedau a ddilynwyd.

16. Rhaid i'r cynllun asesu sicrhau:

16.1 bod y meini prawf a'r gofynion ar gyfer yr ymarfer a gynhaliwyd, a'r trefniadau ar gyfer asesu'r ymarfer hwn, wedi'u nodi'n glir;

16.2 bod unrhyw amodau a ganiateir ar gyfer cynnal asesiadau drwy efelychu wedi'u nodi'n glir, gan gynnwys enghreifftiau o amgylchedd gwaith realistig.

17. Rhaid dangos tystiolaeth o'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer y cynnwys gorfodol a dewisol drwy'r asesiadau.

18. Rhaid i'r meini prawf marcio ddangos sut mae pob agwedd ar asesu yn ymwneud â'r canlyniadau dysgu.

19. Rhaid i gyfleoedd asesu ar gyfer Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant fod ar gael drwy gydol y flwyddyn.

20. Rhaid i gynnwys manyleb Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gynnwys manylion am gyfleoedd i ailgyflwyno.

Canlyniadau

21. Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r holl asesiadau gofynnol yn llwyddiannus (gan fodloni unrhyw reolau cyfuno) yn cael eu hardystio.

22. Rhaid i'r teitl cymhwyster sy'n ymddangos ar dystysgrifau gynnwys enw'r llwybr ardystiedig mewn cromfachau.

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

23. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu:

    23.1 dogfen fanyleb;

    23.2 ystod gynrychioliadol o ddeunyddiau asesu enghreifftiol, sy'n dangos amrywiaeth o lwybrau cymharol;

    23.3 dogfen esboniadol (dogfen rhesymeg) sy'n amlinellu'r rhesymeg y tu ôl i brif nodweddion cynllunio'r cymhwyster a gynigir a sut maen nhw'n alinio â chasgliadau *Adolygiad y Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae*[2].

[2] http://qualifications.wales/english/qualifications/vocational-qualifications/sector-reviews/health-social-care-and-childcare/

Gofynion rhesymegol

24. Pwrpas y ddogfen rhesymeg yw cefnogi'r broses o adolygu a chymeradwyo cymwysterau ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

25. Rhaid i'r ddogfen rhesymeg gynnwys esboniad dros:

    25.1 strwythur y cymhwyster, gan esbonio'r rhesymau dros y ffordd y mae'r cynnwys wedi'i strwythuro;

    25.2 y dull o ddatblygu asesiadau;

    25.3 y strwythur asesu, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nifer, dyraniad y marciau a hyd yr asesiadau;

    25.4 y cyfleoedd asesu sydd ar gael a'r dull o sicrhau bod y cyfleoedd hynny ar gael drwy gydol y flwyddyn;

    25.5 dehongli'r deilliannau dysgu a sut maen nhw'n berthnasol i'r gwahanol gydrannau asesu;

    25.6 dyluniad deunyddiau a chanllawiau asesu enghreifftiol, gan gynnwys y math a'r ystod o dasgau asesu ar draws y cymhwyster a'u perthynas â'r canlyniadau dysgu;

    25.7 sut y caiff y meini prawf marcio eu dylunio a'u cymhwyso;

    25.8 sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig;

    25.9 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymwysterau hyn yn gyson ac i'r lefel briodol, gan gynnwys y broses ar gyfer gosod a chynnal safonau;

    25.10 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys y rhesymeg ar gyfer y ffin basio/methu arfaethedig wrth asesu a dyfarnu'r cymhwyster.

Gofynion gweithredol

26. Rhaid i'r fanyleb a/neu'r wybodaeth ategol nodi'r gofynion o ran gwybodaeth a chymhwysedd (pwnc ac asesu/sicrhau ansawdd) ar gyfer aseswyr, ac aswirwyr ansawdd mewnol ac aswirwyr ansawdd allanol, sy'n briodol ar gyfer cymhwyster ar y lefel hon.

27. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys manylion penodol am y gofynion gweithredol, gan gynnwys:

    27.1 cofrestriadau;

    27.2 sicrwydd ansawdd;

    27.3 prosesau asesu allanol.

Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at: Ymholiadau Cymwysterau Cymru Adeilad Q2 Lôn Pencarn Imperial Park Coedcernyw Casnewydd NP10 8AR Enquires@qualificationswales.org

Atodiad A - Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Rhaid i gynnwys manyleb Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gynnwys y cynnwys a'r canlyniadau dysgu canlynol. Mae hyn yn cyfrif am 100% o gyfanswm cynnwys a chanlyniadau dysgu'r cymhwyster.

Grŵp A: Cynnwys gorfodol

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys ymarfer gorfodol cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
1. Arwain arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn	1.1. Deall datblygiad dulliau sy'n seiliedig ar hawliau a sut mae'r rhain yn esblygu'n barhaus ac yn dylanwadu ar arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn 1.2. Deall sut i hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant 1.3. Deall effaith y Gymraeg a diwylliant Cymru ar eich gweithle/lleoliad 1.4. Deall atal ac ymyrryd yn gynnar 1.5. Deall effaith y diogelu ar eich gweithle/lleoliad 1.6. Gwybod sut mae damcaniaethau a modelau yn cefnogi dealltwriaeth o ddatblygiad plant
2. Sgiliau astudio	2.1. Deall offer a thechnegau i ddatblygu sgiliau dysgu ac astudio 2.2. Cymhwyso'r defnydd o sgiliau astudio 2.3. Defnyddio tystiolaeth ymchwil o adolygiad o wybodaeth gyhoeddedig

Grŵp B: Cynnwys y llwybr

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio'r cynnwys ar gyfer y llwybrau ar gyfer cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Llwybr	**Canlyniadau**
3. Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau magu plant	3.1. Cymhwyso dysgu o waith ymchwil ac ymarfer gwybodus ar sail tystiolaeth yn eich gwaith eich hun gyda theuluoedd/gofalwyr 3.2. Gweithredu ymyriadau y gellir eu defnyddio i ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr er mwyn cyflawni canlyniadau magu plant cadarnhaol 3.3. Arwain cymorth i deuluoedd/gofalwyr er mwyn cydnabod ffactorau sy'n cael effaith ar eu sgiliau magu plant 3.4. Arwain cymorth i deuluoedd/gofalwyr i ddatblygu sgiliau magu plant trwy weithredu cynlluniau y cytunwyd arnynt 3.5. Hyrwyddo rôl ac effaith gwaith aml-asiantaethol ar ganlyniadau cadarnhaol i deuluoedd/gofalwyr 3.6. Arwain cymorth rhianta i ddatblygu rhianta cadarnhaol 3.7. Cymhwyso protocolau rhannu gwybodaeth wrth weithio gyda theuluoedd a gofalwyr

Llwybr	**Canlyniadau**
4.Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (ALlICh)	4.1. Deall datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (LlICh) 4.2. Gwerthuso'r ffyrdd y mae damcaniaethau ac ymchwil gyfredol wedi dylanwadu ar bolisi ac ymarfer yn ymwneud â Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (LlICh) 4.3. Deall yr ystod o anghenion leferydd, iaith a chyfathrebu (ALlICh) y gall plant eu profi a'u goblygiadau ar gyfer datblygiad cyfannol 4.4. Arwain arferion sy'n cefnogi'r broses o nodi, cydnabod a chefnogi plant ag ALlICh 4.5. Arwain ar ddatblygu amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol yn eich gweithle/lleoliadd 4.6. Cyfrannu at gynllunio a gwerthuso strategaethau ac ymyriadau sy'n cefnogi plant ag ALlICh o fewn eich gweithle/lleoliad 4.7. Y cysylltiadau rhwng dwyieithrwydd/amlieithrwydd a datblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu 4.8. Arwain ar a hyrwyddo cefnogi plant sy'n dysgu iaith y gweithle/lleoliad, fel iaith ychwanegol 4.9. Pwysigrwydd addasu arfer yn seiliedig ar fyfyrio wrth weithio gyda phlant ag ALlICh
5. Adnabod a Chefnogi Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY);	5.1. Ymgorffori deddfwriaeth, canllawiau ac ymarfer cyfredol mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 5.2. Deall cyfrifoldebau lleoliadau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer plant ag ADY 5.3. Defnyddio cydnabyddiaeth i gefnogi ymyrraeth gynnar gyda phlant 5.4. Cydweithio i weithredu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y plentyn 5.5. Cefnogi ymddygiad cadarnhaol wrth weithio gyda phlant 5.6. Defnyddio myfyrio i addasu ymarfer wrth weithio gyda phlant ag ADY